COFNODION CYFARFOD Y FFORWM CYNGOR TREF A CHYMUNED A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT, DYDD LLUN, 21 TACHWEDD 2022, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | E L P Caparros | G Chappell | C Davies |
| S Easterbrook | M J Evans | P Ford | J Gebbie |
| RM Granville | P W Jenkins | M R John | L Lewis |
| S Parker | R J Smith | I M Spiller | Y Walton-Davies |
| MJ Williams | E D Winstanley | T Wood | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

M Jones a/ac JH Tildesley MBE

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Phillip Angell | Arweinydd Tîm Rheoli Traffig a Pharcio |
| Gary Ennis | Rheolwr Grŵp – Cefnogaeth Busnes |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Guy Smith | |

6. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim.

7. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Fforwm y Cynghorau Tref a Chymuned dyddiedig 14 Awst 2022, fel cofnod gwir a chywir, yn amodol ar ychwanegu enw'r Cynghorydd M Evans at restr y rhai a ymddiheurodd am eu habsenoldeb o'r cyfarfod hwnnw.

8. ADOLYGIAD LLYWODRAETHU CYMUNEDOL

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp Cymorth Busnes adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi amlinelliad i'r Cynghorau Tref a Chymuned o'r broses ar gyfer Adolygiad Llywodraethu Cymunedol llawn ym Mhen-y-bont ar Ogwr, i'w gyflawni ar gyfer Etholiadau Lleol Mai 2027.

Fel rhywfaint o wybodaeth gefndir, dywedodd fod ffiniau wardiau a threfniadau etholiadol Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael eu hadolygu a'u gweithredu gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) ar gyfer Etholiadau Lleol Mai 2022.

Roedd adolygiad y Comisiwn hefyd yn cynnwys rhai newidiadau o bwys mewn dau Gyngor Cymuned: Cyngor Cymuned Bracla a Chyngor Tref Porthcawl; a gweithredwyd y rhain hefyd ar gyfer Etholiadau Lleol Mai 2022.

Ychwanegodd Rheolwr y Grŵp Cymorth Busnes, fod y Cyngor hefyd wedi cynnal adolygiad o drefniadau etholiadol Cyngor Cymuned Coety Uchaf yn dilyn cais ffurfiol gan y Cyngor Cymuned, oedd hefyd wedi cael ei weithredu mewn pryd ar gyfer Etholiadau Lleol Mai 2022.

Cwblhawyd yr Adolygiad Llywodraethu Cymunedol llawn diwethaf yn 2009 a byddai fel arfer yn dilyn cylch 10 mlynedd. Arweiniodd yr oedi cyn cwblhau Adolygiad Etholiadol Pen-y-bont ar Ogwr a'r pandemig at ddiffyg digon o amser i gynnal adolygiad llawn mewn pryd ar gyfer yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2022.

Eglurodd mai'r Cylch Gorchwyl (ToR) yw'r enw ar y ddogfen allweddol sy'n cychwyn yr Adolygiad Llywodraethu Cymunedol. Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi'r amserlen a'r gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer yr adolygiad, yn rhoi arweiniad, ac yn nodi'r materion fydd yn cael eu hystyried yn ystod yr adolygiad. Mae hefyd yn caniatáu i'r Cyngor sicrhau ei fod yn dilyn gweithdrefn benodol, yn ystyried yr ystyriaethau priodol ar gyfer yr adolygiad, ac yn galluogi partïon â diddordeb i ddeall sut i gymryd rhan yn effeithiol yn yr adolygiad. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r Comisiwn p'un a yw'r Cyngor wedi cynnal yr adolygiad yn briodol neu beidio o dan delerau'r Ddeddf. Cafwyd esboniad pellach o'r Cylch Gorchwyl ym mharagraff 4.2 yr adroddiad.

O ran y trefniadau etholiadol, rhydd yr adolygiad y cyfle i ystyried i ba raddau y cyflawnir "cydraddoldeb etholiadol" ar draws cymunedau Pen-y-bont ar Ogwr, ac ar draws unrhyw wardiau sy'n bodoli o fewn cymuned. Adwaenir hwn fel polisi maint cyngor, a bydd yn ystyried:

- Dyraniad bras y cynghorwyr fesul etholaeth;
- Darparu isafswm ac uchafswm cyffredinol nifer y cynghorwyr cymuned ar gyfer cyngor cymuned. Yn hanesyddol, lleiafswm nifer y cynghorwyr ar gyfer cyngor cymuned oedd 7. Mae'r cyngor cymuned mwyaf yng Nghymru ar hyn o bryd yn 24. Gall y maint mwyaf fod yn ddibynnol ar y ffactorau a ganlyn:

  - Maint y cynghorau cymuned presennol;
  - Graddfa gweithgaredd y cynghorau cymuned;
  - Daearyddiaeth ardal y Cyngor; a
  - Dwysedd poblogaeth ardal y Cyngor;

Cadarnhaodd Rheolwr y Grŵp Cymorth Busnes pe bai uno dwy neu fwy o gymunedau'n cael ei argymell, yna byddai'r cynghorau cymuned presennol yn cael eu diddymu a châi ardal gymunedol newydd ar wahân ei sefydlu. Dan yr amgylchiadau hyn mae'n arferol i'r gymuned gael ei rhannu'n wardiau i adlewyrchu ffiniau'r cymunedau blaenorol a gafodd eu huno.

Fe gymer y broses 12 mis o leiaf i'w chwblhau o gyhoeddi'r Cylch Gorchwyl, unwaith y bydd wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor. Y dyddiad amcangyfrifedig ar gyfer dechrau'r broses ymgynghori yw 1 Mehefin 2023 ac mae'n caniatáu 12 wythnos o leiaf o ymgynghori yn ystod y cam ymchwilio cychwynnol a cham yr adroddiad drafft.

Daeth Rheolwr y Grŵp Cymorth Busnes â'i gyflwyniad i ben drwy ddweud mai'r cam rhagarweiniol fydd cyhoeddi'r Cylch Gorchwyl ac yna gwahodd cyflwyniadau cychwynnol i'r Cyngor eu hystyried wrth ddrafftio argymhellion ar gyfer unrhyw newidiadau i ffiniau a gweinyddiaeth etholiadol. Câi'r argymhellion drafft wedyn eu cyhoeddi, gydag ymarferiad ymgynghori pellach yn cael ei gynnal yn gwahodd rhagor o gyflwyniadau. Ar ôl ystyried unrhyw gyflwyniadau pellach, bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r argymhellion terfynol ac yn cwblhau'r adolygiad. Y cam olaf fydd gwneud y Gorchymyn i weithredu unrhyw newidiadau i ffiniau a threfniadau etholiadol a ddaw i rym ar gyfer Etholiadau Lleol Mai 2027.

Teimlai Aelod y dylid ymdrechu i geisio cael aelodau'r cyhoedd i ddangos diddordeb mewn bod yn Gynghorydd Tref/Cymuned oherwydd bod, hyd yn oed yn dilyn

etholiadau'r llynedd, nifer o seddi gweigion o hyd ar Gynghorau Tref/Cymuned y Fwrdeistref Sirol.

Teimlai Aelod y dylid cynnal unrhyw adolygiad o fewn yr amserlenni perthnasol a amlinellwyd yn yr adroddiad ac y dylai'r adolygiad gael ei arwain yn ddigonol o safbwynt gweinyddol, gan staff yr awdurdod lleol.

Cadarnhaodd Rheolwr y Grŵp Cymorth Busnes, y byddai'r broses a'i chynigion yn cael eu harchwilio'n fanylach ac yn fwy dwys maes o law wrth i faterion ddatblygu, gyda sefydliadau allweddol fel, er enghraifft, Comisiwn y Ffiniau ac Un Llais Cymru. Ychwanegodd y gellid ymgynghori hefyd ag awdurdodau lleol eraill sydd wedi bod yn rhan o'r broses hon o'r blaen.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan Aelod, cadarnhaodd y byddai'r Cylch Gorchwyl yn cynnwys edrych ar faint y gwahanol etholaethau a wardiau unwaith yn rhagor, fel rhan o unrhyw adolygiad.

Teimlai'r Arweinydd y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Fforwm mewn cyfarfod yn y dyfodol a'i bod yn bwysig bod Clercod holl Gynghorau Tref/Cymuned BCB yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn ac yn ymwybodol o'r canlyniadau posibl fydd yn deillio ohono.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

9. TERFYN DIOFYN O 20 MYA YNG NGHYMRU O FIS MEDI 2023

Cyflwynodd Pennaeth Gweithrediadau'r Gwasanaethau Cymunedol adroddiad ar yr eitem uchod ac, yn dilyn cyflwyniad byr, gwahoddodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio i roi cyflwyniad.

Cadarnhaodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio fod Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi nodi un o'i blaenoriaethau allweddol sef 'newid y terfyn cyflymder diofyn o 30mya i 20mya mewn ardaloedd adeiledig i leihau anafiadau a marwolaethau sy'n gysylltiedig â thraffig a gwneud cerdded a beicio yn fwy diogel ac yn fwy deniadol'.

Y cynnig oedd, drwy alluogi llawer mwy o bobl i ddefnyddio terfynau 20mya, y byddai'n sicrhau manteision sylweddol o ran diogelwch ffyrdd, yn enwedig mewn cymdogaethau difreintiedig. Yn y tymor hwy, disgwylir y bydd gweld llai o berygl ar y ffyrdd yn arwain mwy o bobl i gerdded a beicio, fydd yn gwella iechyd y cyhoedd ac yn cymryd lle rhai teithiau car byr, gan gyflawni gostyngiadau pellach mewn gwrthdrawiadau ac anafusion. Mae mwy o gerdded a beicio hefyd yn debygol o arwain at fwy o gydlyniad cymdeithasol fydd yn esgor ar fanteision cymdeithasol ac iechyd pellach. Ar ben hynny, bydd cyflymderau is yn arwain at ostyngiad mewn sŵn traffig, tra bydd yr effeithiau ar ansawdd yr aer yn niwtral ar y gwaethaf ac y bydd cynnydd bach mewn amseroedd teithio.

Cadarnhaodd, fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, fod Tasglu 20mya wedi'i greu i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i nodi'r ffyrdd hynny fyddai'n eithriad i'r ddeddfwriaeth. Darparodd yr Awdurdod wybodaeth leol ac arbenigedd rheoli traffig i helpu i nodi'r ffyrdd hynny a ddylai fod yn eithriad i'r ddeddfwriaeth er mwyn helpu i sicrhau y cedwir at derfynau ledled y fwrdeistref ac o ganlyniad nad yw'r ddeddfwriaeth yn dioddef anfri.

Fel rhan o'i gyflwyniad, dywedodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio, o fis Medi 2023, y bydd terfyn cyflymder diofyn newydd o 20mya yn berthnasol i'r rhan fwyaf o strydoedd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr sydd â goleuadau stryd yng Nghymru.

Gallai'r cynnig i leihau terfynau cyflymder diofyn o 30mya i 20mya yn yr ardaloedd hyn arwain at nifer o fanteision, gan gynnwys:

- gostyngiad mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd
- mwy o gyfleoedd i gerdded a beicio yn ein cymunedau
- cynorthwyo i wella ein hiechyd a'n lles
- gwneud ein strydoedd yn fwy diogel
- diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Cadarnhaodd y byddai'r cyfyngiadau cyflymder uchod yn cael eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru o 17 Medi 2023.

Cadarnhaodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio fod cyflwyno cynlluniau peilot wedi nodi problemau gyda chyflwyniad cyffredinol yr 20mya, yn benodol ar yr holl ffyrdd cyfyngedig.

Roedd deiseb a gyflwynwyd o fewn misoedd i'r cynnig cychwynnol, wedi sicrhau 40,000 o lofnodion yn awgrymu nad oedd terfyn cyflymder cyffredinol o 20mya yn briodol ar gyfer pob ffordd, a bod angen ceisio barn cymunedau ynglŷn â hyn er mwyn cael adborth.

O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn, cyflwynwyd rhai eithriadau cyffredinol ac ni chawsant eu caniatáu ar gyfer ffyrdd 30mya A a B, os oeddent wedi'u lleoli fel a ganlyn:

O fewn 100 metr ar droed i unrhyw leoliad addysgol;
O fewn 100 metr ar droed i unrhyw ganolfan gymunedol;
O fewn 100 metr ar droed i unrhyw ysbyty;
Lle mae nifer yr eiddo preswyl a/neu fanwerthu ar ymyl ffordd yn fwy na dwysedd diffiniedig

Felly ystyriwyd dau brif gwestiwn cyn ystyried a ddylid gosod terfyn cyflymder o 20mya mewn lleoliad penodol, sef a) A oes niferoedd sylweddol (neu niferoedd posibl, pe bai'r cyflymder yn is) o gerddwyr a beicwyr yn teithio ar hyd neu ar draws y ffordd? a b) Os mai 'oes' yw'r ateb i hyn, a yw'r cerddwyr a'r beicwyr yn cymysgu â thraffig moduron?

O ran Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig, dywedodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio, y câi arwyddion terfynell eu caniatáu ar ddechrau a diwedd ffordd gyfyngedig; fodd bynnag, ni chaniateid arwyddion ailadroddus o fewn yr un ardal / parth.

At hynny, os cedwir 30mya ar ffyrdd dosbarthu, caiff parthau 30mya gynnwys arwyddion ailadroddus. Byddai hyn yn caniatáu arwyddion 20mya / 30mya ar gyffyrdd oddi ar y ffyrdd dosbarthu, gan gynyddu ymwybyddiaeth gyrwyr a chynyddu diogelwch y ffyrdd yn yr ardal o bosibl, meddai.

Ychwanegodd ymhellach y byddai cyfyngiadau cyflymder dros dro o 20mya y tu allan i ysgolion (ar barthau 30mya) yn cynnwys nodweddion pyrth wedi eu goleuo.

Dywedodd Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio y byddai'r newidiadau cyn eu gweithredu yn gofyn am gryn dipyn o gymorth gweinyddol o ran gwneud a/neu ddiwygio Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (GRhT), er enghraifft:-

1. Newid GRhT presennol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol i statws 'ffordd gyfyngedig';
2. Newid parthau 20mya presennol i statws 'ffordd gyfyngedig';
3. GRhT newydd ar gyfer eithriadau y cytunwyd arnynt;
4. GRhT newydd ar gyfer lleoliadau cyflymder amrywiol; a
5. GRhT newydd ar gyfer nodweddion porth

Gan fod hyn yn cynnwys diwedd cyflwyniad y Swyddog, gofynnodd yr Arweinydd i'r Aelodau a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau i Bennaeth Gweithrediadau y Gwasanaethau Cymunedol a/neu Arweinydd y Tîm Rheoli Traffig a Pharcio.

Ymatebwyd i nifer o gwestiynau gan Swyddogion Priffyrdd, a cheir manylion amdanynt yma.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad a'r cyflwyniad cysylltiedig

10. EITEMAU BRYS

Dim.